



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Tîm Diogelu Iechyd  
Health Protection Team

Ffôn/Tel: 0300 00 300 32

E-bost/Email: [aware@wales.nhs.uk](mailto:aware@wales.nhs.uk)

Gwefan/Web: [icc.gig.cymru](http://icc.gig.cymru) [phw.nhs.wales](http://phw.nhs.wales)

Dyddiad: 9/12/2022

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Fe'n hysbyswyd bod nifer cynyddol o blant sy'n mynd i'r ysgol wedi cael diagnosis o dwymyn goch dros yr ychydig wythnosau diwethaf.

Er bod y dwymyn goch yn salwch ysgafn fel arfer, dylid ei drin â gwrthfotigau i leihau'r risg o gymhlethdodau ac i leihau lledaeniad y salwch i eraill. **Er mwyn osgoi lledaenu'r haint, os ydych chi neu'ch plentyn yn dangos symptomau o'r dwymyn goch, mae'n bwysig aros gartref, i ffwrdd o'r feithrinfa, yr ysgol, neu'r gwaith am o leiaf 24 awr ar ôl dechrau'r driniaeth wrthfotig.**

**Cymhlethdodau posibl:** Gall plant sydd wedi cael brech yr ieir neu'r fflw yn ddiweddar ddatblygu haint mwy difrifol yn ystod achos o dwymyn goch. Felly, dylai rhieni barhau i fod yn wylidwrus o symptomau fel tymheredd uchel parhaus, llid yr isgroen (haint ar y croen) ac arthritis (poen yn y cymalau a chwyddo). Os ydych chi'n pryderu am unrhyw reswm, ceisiwch gymorth meddygol ar unwaith.

Mae **symptomau'r** dwymyn goch yn cynnwys dolur gwddf, cur pen, twymyn, cyfog a chwydu. Mae brech goch mân yn dilyn hyn sydd fel rheol yn ymddangos gyntaf ar y frest a'r stumog, gan ymledu'n gyflym i rannau eraill o'r corff. Ar groen sydd â lliw tywyllach, gall fod yn anoddach gweld y frech goch, ond dylai deimlo fel 'papur gwydrog'. Gall yr wyneb fod yn goch ond yn welw o amgylch y geg.

Os ydych chi'n credu bod gennych chi, neu'ch plentyn, dwymyn goch:

- ewch i weld eich meddyg teulu neu cysylltwch ag NHS 111 cyn gynted â phosibl.
- gwnewch yn siŵr eich bod chi/eich plentyn yn gorffen cwrs llawn o unrhyw wrthfotigau a ragnodir gan feddyg.
- rhowch wybod i'r ysgol am y salwch.

**Os oes gan eich plentyn gyflwr iechyd sylfaenol sy'n effeithio ar ei system imiwneidd, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu neu'ch meddyg ysbyty i drafod a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol.**

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y dwymyn goch ar wefan y GIG: [NHS 111 Wales - Health A-Z: Scarlet fever](#).

Yr eiddoch yn gywir

Amddiffyn Iechyd